# PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION, 27.07.12

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Linda W. Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alwyn Gruffydd (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr**:** Stephen Churchman, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Jean Forsyth, Sian Gwenllian, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, R.H. Wyn Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Alwyn Evans-Jones (Pennaeth Adnoddau Dynol), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol – ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar y rhaglen) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu – ar gyfer eitemau 1, 2 a 3 ar y rhaglen)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Dyfed Edwards a Liz Saville Roberts

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 2. MATER BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys cofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 a 20 Gorffennaf 2012 fel mater brys gan nad oeddynt wedi eu cynnwys ar y rhaglen.

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 a 20 Gorffennaf 2012 fel rhai cywir.

## 3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

**PENDERFYNWYD cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma'n berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolion penodol a bod gan yr unigolion hynny hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sy'n galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion nac yn gofyn am eu hadnabod. O ganlyniad, mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriedig ac yn gorbwyso unrhyw fudd cyhoeddus o'i ddatgelu.**

## 4. PENODI PENNAETH GWASANAETHAU CYMDEITHASOL, TAI A HAMDDEN

Adroddwyd ar ganlyniadau'r Ganolfan Asesu.

Cyfwelwyd un ymgeisydd a oedd ar y rhestr fer ar gyfer y swydd.

**PENDERFYNWYD penodi Morwena Edwards i'r swydd Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai a Hamdden.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m. a daeth i ben 11.45am